

Cyngor Dinas Casnewydd

Cynnig Ad-drefnu Ysgol

Adroddiad ar yr Ymgynghoriad

Cynnig i sefydlu ysgol gynradd newydd ar ddatblygiad Glan Llyn

Cyfnod Ymgynghori Ffurfiol: 2 Hydref 2017 – 12 Tachwedd 2017

Ddiben

Cyhoeddir yr adroddiad hwn yn unol â gofynion Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a'r Cod Trefniadaeth Ysgolion, Gorffennaf 2013.

Mae'r adroddiad hwn ar yr ymgynghoriad yn cynnwys yr adrannau canlynol:

- Y Cynnig
- Ymgysylltu â Rhanddeiliaid
- Fersiwn Gryno Syml – Plant a Phobl Ifanc
- Llais y Dysgwr
- Ymatebion i'r Ymgynghoriad
- Estyn
- Ystyriaethau Ariannol
- Argymhellion

Y Cynnig

Sefydlu ysgol gynradd newydd ar ddatblygiad Glan Llyn ar gyfer plant rhwng 3 ac 11 oed o fis Medi 2018.

Ymgysylltu â Rhanddeiliaid

Estynnwyd gwahoddiad i gymryd rhan yn yr ymgynghoriad statudol i'r rhanddeiliaid canlynol, naill ai drwy ddolen i'r pecyn ymgynghori ar wefan y Cyngor ac anfon fersiwn electronig o'r pecyn dros yr e-bost neu, fel arall, drwy anfon copïau caled o'r deunydd ymgynghori:

- Pawb sy'n byw ar safle Glan Llyn;
- Athrawon, staff a chyrrff llywodraethu Ysgol Gynradd Llysweri, Ysgol Gynradd Maendy, Ysgol Gynradd Somerton, Ysgol Gynradd St Andrew, Ysgol Gynradd Gatholig Sant Padrig ac Ysgol Gymraeg Casnewydd;
- Rhieni, gofalwyr a gwarcheidwaid disgyblion Ysgol Gynradd Llysweri, Ysgol Gynradd Maendy, Ysgol Gynradd Somerton, Ysgol Gynradd St Andrew, Ysgol Gynradd Gatholig Sant Padrig ac Ysgol Gymraeg Casnewydd;
- Disgyblion Ysgol Gynradd Llysweri, Ysgol Gynradd Maendy, Ysgol Gynradd Somerton, Ysgol Gynradd St Andrew, Ysgol Gynradd Gatholig Sant Padrig ac Ysgol Gymraeg Casnewydd;
- Penaethiaid a Chyrrff Llywodraethu pob ysgol arall yng Nghasnewydd;
- Holl aelodau etholedig Cyngor Dinas Casnewydd;
- Holl Benaethiaid Gwasanaethau Cyngor Dinas Casnewydd;
- Gweinidogion Cymru;
- Aelodau Cynulliad (ACau) ac Aelodau Seneddol (ASau) sy'n cynrychioli'r ardal a wasanaethir gan yr ysgolion sy'n rhan o'r cynnig;
- Awdurdodau Lleol eraill ledled rhanbarth Consortiwm De-ddwyrain Cymru, gan gynnwys adrannau Trafnidiaeth perthnasol;
- Gwasanaeth Cyflawni Addysg De-ddwyrain Cymru;
- Yr Eglwys yng Nghymru, Esgobaeth Mynwy;
- Archesgobaeth Gatholig;
- Estyn;
- Undebau llafur athrawon a staff;
- Comisiynydd Heddlu a Throseddau Gwent;
- Cyngorau Cymuned Trefesgob, Allteuryn, Llanwern, Trefonnen a'r Redwig;
- Y bartneriaeth Cymunedau yn Gyntaf leol (neu gorff cyfatebol);
- Y tri darparwr gofal plant annibynnol yn Llanwern, Llysweri a'r cyffiniau – Babes in the Wood, Little Angels ac Osbourne's Children's Nursery;
- Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant Casnewydd;
- SNAP Cymru.

Trefnwyd y digwyddiadau ymgynghori canlynol a rhoddwyd cyhoeddusrwydd iddynt mewn llythyr i rhanddeiliaid. Rhannwyd y wybodaeth hon hefyd ar wefan y Cyngor a'i hamlinellu drwy'r ddogfen ymgynghori gyfan:

Lleoliad	Dyddiad ac Amser	Math o ddigwyddiad
Ysgol Uwchradd Llysweri, Nash Road, NP19 4RP	Dydd Llun 16 Hydref 2017 4.30pm tan 6.30pm	Digwyddiad galw heibio
Ysgol Uwchradd Llanwern, Hartridge Farm Road, NP18 2YE	Dydd Mercher 25 Hydref 2017 4.30pm tan 6.30pm	Digwyddiad galw heibio

Yn anffodus, ni ddaeth llawer o bobl i'r digwyddiadau galw heibio hyn. Aeth wyth o bobl i'r digwyddiad cyntaf, gan gynnwys dau aelod o Uwch-dîm Arwain Ysgol Uwchradd Llysweri a Phennaeth a Chadeirydd Llywodraethwyr Ysgol Gynradd Gatholig Sant Padrig, ynghyd â phedwar darpar riant. Ni ddaeth rhanddeiliaid i'r ail ddigwyddiad. Ategwyd y ddau ddigwyddiad gan y Rheolwr Datblygu Gwasanaeth Addysg gydag aelod o'r Tîm Derbyniadau Ysgol.

Fersiwn Gryno Syml – Plant a Phobl Ifanc

Hefyd, cafodd Fersiwn Gryno Syml o'r brif ddogfen ymgynghori ei chyhoeddi ac roedd wedi'i hanelu'n benodol at blant a phobl ifanc.

Llais y Dysgwr

Aethpwyd at Benaethiaid y pedair ysgol gynradd sydd, ar hyn o bryd, yng nghlwstwr Ysgol Uwchradd Llysweri – Ysgol Gynradd Llysweri, Ysgol Gynradd Maendy, Ysgol Gynradd Somerton ac Ysgol Gynradd St Andrew, yn ogystal â Phenaethiaid Ysgol Gynradd Gatholig Sant Padrig ac Ysgol Gymraeg Casnewydd, i ofyn a fyddent yn caniatáu i'w Cynghorau Ysgol perthnasol gymryd rhan yn yr ymgynghoriad a chytunodd pob un i hwyluso hyn.

Mae'r Cyngor yn ddiolchgar iawn i'r aelodau staff a'r disgyblion a gymerodd ran yn y digwyddiadau hyn a hoffai ddiolch iddynt am eu cyfraniadau gwerthfawr. Cynhaliwyd yr holl gyfarfodydd hyn yn ystod yr ymgynghoriad chwe wythnos a chodwyd y cwestiynau canlynol gan y rhai a oedd yn bresennol:

Ysgol Gynradd Llysweri

Cwestiwn	Ymateb
Pryd fydd yr ysgol hon yn agor?	<i>Bydd yr ysgol gynradd newydd yn agor ym mis Medi 2018.</i>
Beth fydd uchafswm nifer y disgyblion yn yr ysgol newydd?	<i>Bydd yr ysgol newydd yn ysgol 2 ddosbarth mynediad â lle i 60 o blant ym mhob grŵp blwyddyn, felly 420 o ddisgyblion i gyd rhwng y grwpiau Derbyn a Blwyddyn Chwech. Hefyd, bydd dosbarth meithrin â lle i 48 o blant i gyd naill ai dros sesiwn bore neu brynhawn, ynghyd â dau ddosbarth Canolfan Adnoddau Dysgu â lle i 10 o blant ym mhob un.</i>
Pa grwpiau blwyddyn a gaiff eu haddysgu yn yr ysgol newydd?	<i>Bydd yr ysgol newydd yn gallu derbyn plant 3 – 11 oed, felly bydd yn cwmpasu Meithrin i Flwyddyn Chwech.</i>
A fydd digon o ddisgyblion i lenwi'r ysgol newydd?	<i>Yn y pen draw, bydd safle Glan Llyn yn cynnwys oddeutu 4,000 o gartrefi, ac mae'n debygol y bydd teuluoedd sydd â phlant oedran ysgol yn byw mewn llawer o'r rhain. Yn anffodus, prin iawn yw'r lleoedd ysgol gynradd dros ben sydd ar gael ledled y ddinas ac yn yr ardal i blant a fydd efallai'n symud i fyw ar y safle. Felly, mae'r ysgol i'r plant sy'n byw ar safle Glan Llyn yn bennaf.</i>
Pa mor fawr fydd y dosbarthiadau?	<i>Mae uchafswm nifer y disgyblion a nifer y dosbarthiadau'n golygu y dylai fod hyd at 30 o blant ym mhob un o'r dosbarthiadau Derbyn i Flwyddyn Chwech.</i>
Faint o athrawon fydd yn yr ysgol?	<i>Y Pennaeth a'r Corff Llywodraethu fydd yn penderfynu faint o staff fydd eu hangen pan fyddant yn gwybod faint o blant fydd yn mynychu'r ysgol newydd.</i>

Cwestiwn	Ymateb
A fydd ysgol uwchradd newydd hefyd?	<i>Na fydd, nid oes cynlluniau i adeiladu ysgol uwchradd newydd. Ysgol uwchradd dalgylch yr ysgol gynradd newydd hon yw Ysgol Uwchradd Llysweri.</i>
I ba glwstwr fydd yr ysgol newydd yn perthyn?	<i>Bydd yr ysgol newydd yn rhan o glwstwr Ysgol Uwchradd Llysweri.</i>
Pa ddeunyddiau gaiff eu defnyddio i adeiladu'r ysgol?	<i>Bydd yn adeilad â ffrâm dur â gorffeniad bricwaith wedi'i rendro.</i>
A fydd digon o doiledau?	<i>Bydd, mae darpariaeth wedi'i gwneud ar gyfer nifer addas o doiledau ar gyfer pob grŵp oedran yn yr ysgol.</i>
A fydd lle i ddisgyblion anabl yn yr ysgol newydd?	<i>Bydd, bydd yr ysgol yn cydymffurfio'n llawn â'r Ddeddf Cydraddoldeb ac yn galluogi disgyblion ag anableddau i gael mynediad iddi.</i>
A fydd Canolfan Adnoddau Dysgu yn yr ysgol newydd?	<i>Bydd, bydd dau ddosbarth Canolfan Adnoddau Dysgu, un o'r rhain ar gyfer grwpiau blwyddyn y Cyfnod Sylfaen a'r llall ar gyfer grwpiau blwyddyn Cyfnod Allweddol Dau.</i>
A fydd y neuadd yn ddigon mawr ac a fydd ffreutur ar wahân?	<i>Bydd y neuadd yn ddigon mawr ar gyfer uchafswm nifer y disgyblion a chaiff ei defnyddio hefyd fel y ffreutur amser cinio.</i>
A fydd cyfleusterau coginio ym mhob un o'r ystafelloedd dosbarth?	<i>Na fydd, ond mae cynlluniau i'r ysgol gael Ystafell Technoleg y gall pob dosbarth ei defnyddio.</i>
Pa mor fawr fydd y cae 3G?	<i>Bydd yn gae i ddisgyblion iau.</i>
Pa mor bell yw'r tai agosaf?	<i>Bydd y tai agosaf gyferbyn â phrif fynedfa'r ysgol.</i>
Beth fydd enw'r ysgol?	<i>Y corff llywodraethu dros dro fydd yn penderfynu ar hyn pan geir cymeradwyaeth derfynol i'r ysgol gael ei sefydlu.</i>
Beth fydd y wisg ysgol?	<i>Bydd y corff llywodraethu dros dro yn penderfynu ar hyn yn nes at ddyddiad agor yr ysgol.</i>
A fydd yr ysgol yn ecogyfeillgar â Chyngor Ysgol?	<i>Bydd y Pennaeth yn penderfynu ar hyn ar ôl i'r ysgol agor.</i>
A fydd Clybiau Brechwast ac Ar ôl Ysgol?	<i>Bydd y Pennaeth yn penderfynu ar hyn ar ôl i'r ysgol agor.</i>
A fydd yr ysgol yn cynnal Diwrnod Chwaraeon?	<i>Bydd y Pennaeth yn penderfynu ar hyn ar ôl i'r ysgol agor.</i>
A fydd rhai plant yn dod i'r ysgol ar y bws neu mewn tacsï?	<i>Bydd, mae'n bosibl y bydd rhai o'r plant yn cael cludiant am ddim rhwng y cartref a'r ysgol, gan ddiwynnu ar ble maent yn byw a'r lleoedd sydd ar gael mewn ysgolion eraill.</i>
A fydd yn effeithio ar Ysgol Gynradd Llysweri yn y dyfodol o ran disgyblion ac arian?	<i>Mae'n bosibl y bydd rhai plant yn gwneud cais i symud i'r ysgol newydd pan fydd yn agor. O ran arian, bydd angen i'r ysgol newydd gael ei hariannu yn yr un modd â phob ysgol arall. Bydd angen i'r cyllid sydd ar gael gan y Cyngor gael ei ddyrannu'n gyfartal rhwng yr holl ysgolion sy'n gymwys.</i>
A fydd yr ysgol newydd yn effeithio ar natur a'r amgylchedd yn yr ardal?	<i>Byddai'r cynlluniau adeiladu a gyflwynwyd gan y datblygwr wedi ystyried hyn, gan sicrhau y ceir cyn lleied o effaith â phosibl ar y materion hyn.</i>

Cwestiwn	Ymateb
A fydd yr ysgol newydd yn effeithio ar y traffig yn yr ardal?	<i>Gan ei bod yn debygol y bydd y rhan fwyaf o'r plant a fydd yn mynd i'r ysgol newydd yn byw ar safle Glan Llyn, y gobaith yw y bydd plant yn cerdded i'r ysgol lle y bo'n bosibl, gan leihau'r traffig a fydd yn effeithio ar y rhan hon o'r ddinas ar ddechrau a diwedd y diwrnod ysgol.</i>
A gaiff yr ail ysgol ei hadeiladu'n agos at yr ysgol gyntaf?	<i>Na chaiff, mae safle Glan Llyn yn eithaf mawr, felly bydd yr ail ysgol yn dipyn o bellter o'r ysgol gyntaf hon.</i>
Faint bydd yr ysgol yn ei gostio?	<i>Y datblygwr sy'n talu'r holl gostau adeiladu. Fodd bynnag, bydd y Cyngor yn gyfrifol am yr holl gostau dodrefn a chyfarpar. Yr amcangyfrif ar gyfer hyn yw tua £460,000.</i>


Ysgol Gynradd Maendy

Cwestiwn	Ymateb
Faint o Gyfnodau Allweddol a gaiff eu haddysgu yn yr ysgol newydd?	<i>Bydd yr ysgol newydd yn gallu derbyn plant 3 – 11 oed, felly bydd yn cwmpasu Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2.</i>
Faint o blant fydd yn gallu mynd i'r ysgol newydd?	<i>Bydd yr ysgol newydd yn ysgol 2 ddsbarth mynediad â lle i 60 o blant ym mhob grŵp blwyddyn, felly 420 o ddisgyblion i gyd rhwng y grwpiau Derbyn a Blwyddyn Chwech. Hefyd, bydd dosbarth meithrin â lle i 48 o blant i gyd naill ai dros sesiwn bore neu brynhawn, ynghyd â dau ddsbarth Canolfan Adnoddau Dysgu â lle i 10 o blant ym mhob un. Fodd bynnag, caiff yr ysgol ei sefydlu fel ysgol sy'n tyfu ac ni fydd yn llawn tan ddechrau'r bedwaredd flwyddyn. Yn y flwyddyn gyntaf, bydd lle i hyd at 120 o ddisgyblion rhwng Derbyn a Blwyddyn 6, ynghyd â'r dosbarth meithrin a'r Canolfannau Adnoddau Dysgu.</i>
Ai'r Tîm Derbyniadau Ysgol neu'r athrawon fydd yn penderfynu pwy sy'n cael mynd i'r ysgol?	<i>Bydd derbyniad i'r ysgol yn unol â Pholisi Derbyn Ysgolion y Cyngor a weinyddir gan y Tîm Derbyniadau Ysgol yn y Ganolfan Ddinesig.</i>
A fydd yr ysgol newydd yn ysgol Gristnogol?	<i>Bydd yr ysgol newydd yn ysgol gymunedol cyfrwng Saesneg a gynhelir.</i>
A fydd ysgol uwchradd newydd hefyd?	<i>Na fydd, nid oes cynlluniau i adeiladu ysgol uwchradd newydd. Ysgol uwchradd dalgylch yr ysgol gynradd newydd hon yw Ysgol Uwchradd Llysweri.</i>
Pryd fydd cyfweiliadau'n cael eu cynnal ar gyfer athrawon?	<i>Caiff athrawon eu penodi gan y corff llywodraethu dros dro pan roddir cymeradwyaeth derfynol i'r ysgol gael ei sefydlu. Mae hyn yn debygol o fod yn ystod tymor haf 2018.</i>
A fydd ystafelloedd dosbarth ger yr iard chwarae?	<i>Bydd yr ystafelloedd dosbarth i gyd ar y llawr gwaelod a bydd ganddynt fynediad uniongyrchol i'r awyr agored.</i>
A fydd byrddau gwynion yn yr ystafelloedd dosbarth newydd?	<i>Bydd yr holl gyfarpar priodol yn yr ystafelloedd dosbarth, gan gynnwys byrddau gwynion.</i>


Cwestiwn	Ymateb
Pa gyfleusterau a fydd gan yr ysgol newydd? A fyddant yn cynnwys pethau megis llyfrgell, pwll nofio, campfa a chegin / ffreutur?	Mae'r cynlluniau'n cynnwys darparu llyfrgell ysgol bwrpasol, yn ogystal â chegin ac ystafell arlwy. Caiff y neuadd ei defnyddio hefyd fel ffreutur, yn ogystal â lle i gynnal gwasanaethau a gweithgareddau Addysg Gorfforol dan do. Yn anffodus, nid oes cynlluniau i gynnwys pwll nofio yn yr ysgol newydd. Fodd bynnag, bydd cae chwaraeon 3G artiffisial a all fod ar gael i'r gymuned ei ddefnyddio y tu allan i'r diwrnod ysgol.
A fydd loceri ar gael i'r disgyblion yn lle pegiau cotiau?	Bydd y Cyngor yn trafod hyn â'r datblygwr.
Pa drefniadau diogelwch fydd gan yr ysgol newydd? A fydd ffens a chamerau diogelwch yn yr ystafelloedd dosbarth?	Bydd ffens o gwmpas terfyn allanol yr ysgol. Hefyd, bydd ffens yn gwahanu'r cae 3G oddi wrth brif safle'r ysgol er mwyn atal mynediad anawdurdodedig i'r ysgol gyda'r hwyr ac ar y penwythnos ac, o ganlyniad, yn lleihau'r perygl o ddifrod a fandaliaeth. Bydd y corff llywodraethu dros dro yn penderfynu p'un a gaiff camerau diogelwch eu defnyddio, ond mae'n annhebygol y cânt eu gosod yn yr ystafelloedd dosbarth.
Beth fydd lliw'r wisg ysgol?	Bydd y corff llywodraethu dros dro yn penderfynu ar hyn yn nes at ddyddiad agor yr ysgol. *Yna, dangosodd rhai o'r plant rai awgrymiadau ar gyfer dyluniad y wisg ysgol newydd newydd. Amlinellir y rhain isod.
Beth fydd lliwiau a logo'r ysgol?	Bydd y corff llywodraethu dros dro yn penderfynu ar hyn yn nes at ddyddiad agor yr ysgol.
A fydd Clybiau Ar ôl Ysgol neu Siop Ysgol?	Bydd y Pennaeth yn penderfynu ar hyn ar ôl i'r ysgol agor.
Faint bydd yr ysgol yn ei gostio?	Y datblygwr sy'n talu'r holl gostau adeiladu. Fodd bynnag, bydd y Cyngor yn gyfrifol am yr holl gostau dodrefn a chyfarpar. Yr amcangyfrif ar gyfer hyn yw tua £460,000.

Awgrymiadau ar gyfer dyluniad y wisg ysgol

Merched



Bechgyn



Ysgol Gynradd Somerton

Cwestiwn	Ymateb
Pa grwpiau blwyddyn a gaiff eu haddysgu yn yr ysgol newydd?	Bydd yr ysgol newydd yn gallu derbyn plant 3 – 11 oed, felly bydd yn cwmpasu Meithrin i Flwyddyn Chwech.
Pa mor fawr fydd yr ysgol newydd?	Bydd yr ysgol newydd yn ysgol 2 ddosbarth mynediad â lle i 60 o blant ym mhob grŵp blwyddyn, felly 420 o ddisgyblion i gyd rhwng y grwpiau Derbyn a Blwyddyn Chwech. Hefyd, bydd dosbarth meithrin â lle i 48 o blant i gyd naill ai dros sesiwn bore neu brynhawn, ynghyd â dau ddosbarth Canolfan Adnoddau Dysgu â lle i 10 o blant ym mhob un. Bydd yr ystafelloedd dosbarth i gyd ar lefel y llawr gwaelod â mynediad uniongyrchol i'r awyr agored. Bydd yr adeilad yn siâp "L" â dwy adain ar wahân, un ar gyfer dosbarthiadau'r Cyfnod Sylfaen a'r llall ar gyfer dosbarthiadau Cyfnod Allweddol Dau.
Pam mae ysgol mor fawr yn cael ei hagor?	Yn y pen draw, bydd safle Glan Llyn yn cynnwys oddeutu 4,000 o gartrefi, ac mae'n debygol y bydd teuluoedd sydd â phlant oedran ysgol yn byw mewn llawer o'r rhain. Yn anffodus, prin iawn yw'r lleoedd ysgol gynradd dros ben sydd ar gael ledled y ddinas ac yn yr ardal i blant a fydd efallai'n symud i fyw ar y safle. Felly, mae'r ysgol i'r plant sy'n byw ar safle Glan Llyn yn bennaf. Mae cynlluniau tymor hwy i agor ail ysgol gynradd ar y safle.
A fydd digon o ddisgyblion i lenwi'r ysgol newydd?	Na fydd, nid pan fydd yr ysgol yn agor yn gychwynnol mae'n debyg. Am y rheswm hwn, caiff yr ysgol ei sefydlu fel ysgol sy'n tyfu ac ni fydd yn llawn tan ddechrau'r bedwaredd flwyddyn. Yn y flwyddyn gyntaf, bydd lle i hyd at 120 o ddisgyblion rhwng Derbyn a Blwyddyn 6, ynghyd â'r dosbarth meithrin a'r Canolfannau Adnoddau Dysgu.

Cwestiwn	Ymateb
Faint o staff fydd yn gweithio yn yr ysgol?	<i>Bydd y corff llywodraethu dros dro yn penodi Pennaeth pan roddir cymeradwyaeth derfynol i'r ysgol gael ei sefydlu. Yna, bydd y Pennaeth a'r corff llywodraethu fydd yn penderfynu faint o staff fydd eu hangen pan fyddant yn gwybod faint o blant fydd yn mynychu'r ysgol newydd. Bydd hyn yn cynnwys athrawon, cynorthwywyr addysgu a gofalwr.</i>

Ysgol Gynradd St Andrew

Cwestiwn	Ymateb
A yw'r gwaith adeiladu wedi dechrau eto?	<i>Ydy, mae'r gwaith adeiladu eisoes wedi dechrau.</i>
Pa mor hir fydd y gwaith adeiladu'n cymryd?	<i>Dylai'r datblygwr gyflwyno'r adeilad i'r Cyngor yn ystod haf 2018 yn barod i'r ysgol agor ym mis Medi 2018.</i>
Pa grwpiau blwyddyn a gaiff eu haddysgu yn yr ysgol newydd?	<i>Bydd yr ysgol newydd yn gallu derbyn plant 3 – 11 oed, felly bydd yn cwmpasu Meithrin i Flwyddyn Chwech.</i>
Pa mor fawr fydd yr ysgol newydd?	<i>Bydd yr ystafelloedd dosbarth i gyd ar lefel y llawr gwaelod â mynediad uniongyrchol i'r awyr agored. Bydd yr adeilad yn siâp "L" â dwy adain ar wahân, un ar gyfer dosbarthiadau'r Cyfnod Sylfaen a'r llall ar gyfer dosbarthiadau Cyfnod Allweddol Dau.</i>
Pa iaith gaiff ei siarad yn yr ysgol newydd?	<i>Bydd yr ysgol newydd yn ysgol Saesneg.</i>
Faint o blant fydd yn gallu mynd i'r ysgol newydd?	<i>Bydd yr ysgol newydd yn ysgol 2 ddosbarth mynediad â lle i 60 o blant ym mhob grŵp blwyddyn, felly 420 o ddisgyblion i gyd rhwng y grwpiau Derbyn a Blwyddyn Chwech. Hefyd, bydd dosbarth meithrin â lle i 48 o blant i gyd naill ai dros sesiwn bore neu brynhawn, ynghyd â dau ddosbarth Canolfan Adnoddau Dysgu â lle i 10 o blant ym mhob un. Fodd bynnag, caiff yr ysgol ei sefydlu fel ysgol sy'n tyfu ac ni fydd yn llawn tan ddechrau'r bedwaredd flwyddyn. Yn y flwyddyn gyntaf, bydd lle i hyd at 120 o ddisgyblion rhwng Derbyn a Blwyddyn 6, ynghyd â'r dosbarth meithrin a'r Canolfannau Adnoddau Dysgu.</i>
A fydd ysgol uwchradd newydd hefyd?	<i>Na fydd, nid oes cynlluniau i adeiladu ysgol uwchradd newydd. Ysgol uwchradd dalgylch yr ysgol gynradd newydd hon yw Ysgol Uwchradd Llysweri.</i>
A fydd ffreutur yn yr ysgol newydd a pha ginio ysgol fydd yn cael ei weini?	<i>Bydd gan yr ysgol ei ffreutur ei hun a chaiff cinio ei weini ym mhrif neuadd yr ysgol. Caiff prydau ysgol eu darparu gan Chartwells, felly byddant yr un peth â'r rhai a ddarperir mewn ysgolion cynradd eraill ledled y ddinas.</i>
A fydd mynedfeydd, ystafelloedd cotiau ac ystafelloedd newid ar wahân i fechgyn a merched?	<i>Ni fydd cyfleusterau newid penodol yn yr ysgol a bydd yr ystafelloedd cotiau ym mhob ystafell ddosbarth. Bydd toiledau'r Cyfnod Sylfaen oddi ar ystafelloedd dosbarth, felly byddant yn neillryw. Bydd toiledau Cyfnod Allweddol 2 yn y prif goridor, felly gallent fod yn neillryw neu i rywiau penodol. Y corff llywodraethu dros dro fydd yn penderfynu ar hyn.</i>
Pa gyfleusterau awyr agored fydd ar gael yn yr ysgol newydd?	<i>Bydd ardaloedd chwarae allanol yn cynnwys arwynebau caled a meddal. Hefyd, bydd cae 3G i ddisgyblion iau.</i>

Cwestiwn	Ymateb
Pwy fydd Pennaeth yr ysgol newydd?	<i>Caiff y Pennaeth ei benodi gan y corff llywodraethu dros dro pan roddir cymeradwyaeth derfynol i'r ysgol gael ei sefydlu. Mae hyn yn debygol o fod yn ystod tymor haf 2018.</i>
Faint o athrawon fydd ar gael pan fydd yr ysgol newydd yn agor?	<i>Y Pennaeth a'r Corff Llywodraethu fydd yn penderfynu faint o staff fydd eu hangen pan fyddant yn gwybod faint o blant fydd yn mynychu'r ysgol newydd.</i>
Beth fydd enw'r ysgol newydd?	<i>Y corff llywodraethu dros dro fydd yn penderfynu ar hyn pan geir cymeradwyaeth derfynol i'r ysgol gael ei sefydlu.</i>
Beth fydd lliwiau'r ysgol?	<i>Bydd y corff llywodraethu dros dro yn penderfynu ar hyn yn nes at ddyddiad agor yr ysgol.</i>
Beth fydd logo'r ysgol?	<i>Bydd y corff llywodraethu dros dro yn penderfynu ar hyn yn nes at ddyddiad agor yr ysgol. Efallai y bydd am gynnwys disgyblion yn y broses ddyddio.</i>
Pa wersi fydd yn cael eu haddysgu yn yr ysgol newydd?	<i>Bydd y disgyblion yn yr ysgol newydd yn dilyn yr un gwersi â'r rhai mewn ysgolion eraill ledled y ddinas. Y Cwricwlwm Cenedlaethol yw hyn.</i>
A fydd Cyngor Ysgol?	<i>Bydd y Pennaeth yn penderfynu ar hyn ar ôl i'r ysgol agor.</i>
A fydd y disgyblion yn cael eu trefnu'n "llysoedd"?	<i>Bydd y Pennaeth yn penderfynu ar hyn ar ôl i'r ysgol agor.</i>

Ysgol Gynradd Gatholig Sant Padrig

Cwestiwn	Ymateb
Faint o blant fydd yn gallu mynd i'r ysgol newydd?	<i>Bydd yr ysgol newydd yn ysgol 2 ddsbarth mynediad â lle i 60 o blant ym mhob grŵp blwyddyn, felly 420 o ddisgyblion i gyd rhwng y grwpiau Derbyn a Blwyddyn Chwech. Hefyd, bydd dosbarth meithrin â lle i 48 o blant i gyd naill ai dros sesiwn bore neu brynawn, ynghyd â dau ddsbarth Canolfan Adnoddau Dysgu â lle i 10 o blant ym mhob un. Fodd bynnag, caiff yr ysgol ei sefydlu fel ysgol sy'n tyfu ac ni fydd yn llawn tan ddechrau'r bedwaredd flwyddyn. Yn y flwyddyn gyntaf, bydd lle i hyd at 120 o ddisgyblion rhwng Derbyn a Blwyddyn 6, ynghyd â'r dosbarth meithrin a'r Canolfannau Adnoddau Dysgu.</i>
Pam mae angen ysgol newydd yn yr ardal honno?	<i>Yn y pen draw, bydd safle Glan Llyn yn cynnwys oddeutu 4,000 o gartrefi, ac mae'n debygol y bydd teuluoedd sydd â phlant oedran ysgol yn byw mewn llawer o'r rhain. Yn anffodus, prin iawn yw'r lleoedd ysgol gynradd dros ben sydd ar gael ledled y ddinas ac yn yr ardal i blant a fydd efallai'n symud i fyw ar y safle. Felly, mae'r ysgol i'r plant sy'n byw ar safle Glan Llyn yn bennaf oherwydd y diffyg lleoedd ysgol eraill yn yr ardal.</i>
Pa grwpiau blwyddyn a gaiff eu haddysgu yn yr ysgol newydd?	<i>Bydd yr ysgol newydd yn gallu derbyn plant 3 – 11 oed, felly bydd yn cwmpasu Meithrin i Flwyddyn Chwech.</i>
I ba ysgol uwchradd fydd y plant yn mynd?	<i>Ysgol uwchradd dalgylch yr ysgol gynradd newydd hon yw Ysgol Uwchradd Llysweri.</i>
A fydd yr ysgol newydd yn ysgol breifat?	<i>Na fydd, bydd yn ysgol gymunedol a gynhelir ac ni chodir tâl am fynychu'r ysgol.</i>
A fydd yr ysgol newydd yn gysylltiedig ag eglwys?	<i>Na fydd, bydd yr ysgol newydd yn ysgol gymunedol a gynhelir.</i>

Cwestiwn	Ymateb
Pryd fydd yr ysgol hon yn agor?	<i>Bydd yr ysgol gynradd newydd yn agor ym mis Medi 2018.</i>
Beth fydd enw'r ysgol?	<i>Y corff llywodraethu dros dro fydd yn penderfynu ar hyn pan geir cymeradwyaeth derfynol i'r ysgol gael ei sefydlu.</i>
Beth fydd y wisg ysgol?	<i>Bydd y corff llywodraethu dros dro yn penderfynu ar hyn yn nes at ddyddiad agor yr ysgol.</i>
Faint o athrawon fydd yn yr ysgol?	<i>Y Pennaeth a'r corff llywodraethu dros dro fydd yn penderfynu faint o staff fydd eu hangen pan fyddant yn gwybod faint o blant fydd yn mynychu'r ysgol newydd.</i>
A fydd gan yr ysgol ardal dawel?	<i>Mae'r cynlluniau'n cynnwys llyfrgell bwrpasol y gellir ei defnyddio ar gyfer amser tawel.</i>
A fydd cyfleusterau parcio yn yr ysgol newydd?	<i>Mae'r cynlluniau'n cynnwys lleoedd parcio dynodedig ar dir yr ysgol i staff ac ymwelwyr, yn ogystal â nifer fach o gilfannau parcio y tu allan i'r ysgol.</i>
A fydd pobl yn gallu defnyddio cyfleusterau'r ysgol y tu allan i'r diwrnod ysgol?	<i>Y bwriad yw y bydd yr ysgol yn gallu cael cae 3G a'r gobaith yw y gellir ei brydlesu i grwpiau cymunedol gyda'r hwyr ac ar y penwythnos. Hefyd, gall fod yn bosibl i ystafelloedd unigol yn adeilad yr ysgol gael eu rhentu i grwpiau cymunedol y tu allan i'r diwrnod ysgol. Bydd angen i'r corff llywodraethu benderfynu ar unrhyw gytundeb prydles pan fydd yr ysgol yn agor.</i>

At ei gilydd, cymerodd 52 o blant ran yn y sesiynau hyn rhwng y pum ysgol. O'r garfan disgyblion hon, roedd 50 o blant (sy'n cyfateb i 96%) yn meddwl bod agor ysgol gynradd newydd yn yr ardal yn syniad da. Roedd 33 o'r plant hyn (sy'n cyfateb i 63% o'r garfan) hefyd yn cefnogi'r cysyniad o ysgol sy'n tyfu.

Ysgol Gymraeg Casnewydd

Roedd y grŵp o ddisgyblion yn Ysgol Gymraeg Casnewydd yn gytŷn y dylid agor ysgol newydd, ond roeddent yn teimlo y byddai ysgol Gymraeg yn well. Amlinellir crynodeb o'u cwestiynau a sylwadau perthnasol isod:

Cwestiwn	Ymateb
Pam mae'n rhaid i'r ysgol newydd fod yn ysgol cyfrwng Saesneg?	<i>Nid oes gofyniad penodol i'r ysgol fod yn ysgol cyfrwng Saesneg. Fodd bynnag, cyn cyhoeddi'r ymgynghoriad hwn, cynhaliodd y Cyngor ymarfer cyn ymgynghori â'r teuluoedd sy'n byw ar y safle ar hyn o bryd er mwyn nodi a oedd y prif alw am ddarpariaeth Gymraeg neu Saesneg. Cafodd y Cyngor 65 o ymatebion, y dewisodd 72.3% ohonynt ysgol Saesneg. Yn ogystal â'r adborth uniongyrchol hwn gan randdeiliaid, mae Ysgol Gymraeg Casnewydd yn agos iawn yn ddaearyddol at safle Glan Llyn. Yn ychwanegol, ar draws yr ysgolion cynradd Cymraeg, mae lleoedd gwag ar hyn o bryd ym mhob grŵp blwyddyn o Dderbyn i Flwyddyn Chwech. O ystyried y sefyllfa gyffredinol hon, cynigiwyd y dylai'r ysgol gynradd newydd gyntaf i'w sefydlu ar y safle fod yn un Saesneg.</i>
A yw'r ysgolion Saesneg presennol yn yr ardal yn llawn?	<i>Prin iawn yw'r lleoedd ysgol gynradd dros ben sydd gan y Cyngor, yn enwedig yng ngrwpiau blwyddyn y Cyfnod Sylfaen. Ym mis Medi 2017, dim ond 18 o leoedd a oedd ar gael rhwng holl grwpiau blwyddyn y Cyfnod Sylfaen yng nghlwstwr Llysweri.</i>

Cwestiwn	Ymateb
A ydych yn cytuno bod cyfran bresennol yr ysgolion cyfrwng Cymraeg o'u cymharu â'r ysgolion Saesneg yn annheg?	Mae'r Cyngor wedi agor tair ysgol cyfrwng Cymraeg newydd dros y degawd diwethaf, ac ni wrthodir y cyfle i unrhyw blentyn gael addysg Gymraeg.
Pam mae'r tai newydd yn cael eu hadeiladu?	Mae'r tai newydd yn cael eu hadeiladu gan ddatblygwr er mwyn diwallu anghenion y bobl sy'n byw ac yn gweithio yng Nghasnewydd.
Pam mae ffordan fawr bob tro y bydd y Cyngor yn ceisio agor ysgol cyfrwng Cymraeg?	Mae gan y Cyngor hanes da o agor tair ysgol cyfrwng Cymraeg newydd dros y degawd diwethaf.
Beth yw diben cael iaith genedlaethol os na chaiff ei chefnogi?	Mae gan y Cyngor Gynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg sy'n cael ei fonitro a'i gefnogi gan y Fforwm statudol y Gymraeg mewn Addysg.

Gofynnodd y disgyblion a oedd wedi ymgynull am gael rhannu eu barn o ran pam y dylai'r ysgol gael ei sefydlu'n ysgol Gymraeg yn hytrach nag ysgol Saesneg:

- Mae Siarter Llywodraeth Cymru am weld miliwn o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru erbyn 2050. Byddai agor ysgol gynradd Gymraeg ychwanegol yn helpu i gyrraedd y targed hwn;
- Byddai cael pedwaredd ysgol Gymraeg yn gwella'r ffordd mae ysgolion Cymraeg yn gweithio gyda'i gilydd ar hyn o bryd;
- Dylid cael mwy o ysgolion Cymraeg er mwyn cyfateb i'r nifer fawr o ysgolion Saesneg sydd eisoes yng Nghasnewydd;
- Dim ond tair ysgol Gymraeg sydd ar hyn o bryd, felly mae'r dewis yn gyfyngedig;
- Mae nifer y bobl sy'n siarad Cymraeg ledled Cymru wedi disgyn, a byddai agor ysgol arall yn cyfrannu at gynyddu'r nifer hon eto;
- Heb nifer ddigonol o ysgolion Cymraeg, mae'n bosibl y bydd yr iaith yn marw;
- Mae angen i bobl allu deall rhywbeth er mwyn gwybod amdano'n iawn, ac mae pawb yn haeddu'r cyfle i wybod am y Gymraeg a'i deall;
- Nid yw ysgolion Saesneg mor llawn ag ysgolion Cymraeg;
- Nid yw anghenion y lleiafrif yn cael eu hystyried gan y mwyafrif;
- Mae plant sy'n mynychu ysgolion Cymraeg yn dod yn gwbl ddwyieithog yn Gymraeg ac yn Saesneg;
- Mae pobl sy'n gallu siarad Cymraeg yn cael cyfleoedd bywyd gwell;
- Mae siarad Cymraeg yn ffordd o ddangos balchder yn y wlad;
- Dylai unrhyw ysgol newydd sy'n cael ei hagor yng Nghymru fod yn un Gymraeg;
- Dylid agor ysgol Gymraeg arall er mwyn rhoi'r cyfle i fwy o blant ddysgu siarad Cymraeg;
- Mae agor ysgol Saesneg yn hytrach nag ysgol Gymraeg yn dangos nad yw'r Cyngor yn parchu'r Gymraeg;
- Mae'r Gymraeg yn hŷn na'r Saesneg;
- Mae'r Gymraeg yn dioddef oherwydd y nifer isel o ysgolion Cymraeg;
- Dylai plant allu mynd i'w dewis o ysgolion Saesneg neu Gymraeg sy'n agos at eu cartrefi;
- Mae'r Gymraeg yn iaith hynafol ac, os caniateir iddi farw, myth yn unig fydd hi, yn union fel y mammoth gwlanog neu'r teigr ysgithrog;

- Mae cynyddu nifer yr ysgolion Cymraeg yn helpu pobl i ddeall yr iaith;
- Byddai ysgol Gymraeg arall yn helpu i gynyddu nifer y bobl sy'n siarad Cymraeg yng Nghasnewydd;
- Gan fod cynlluniau i gael dwy ysgol newydd ar safle Glan Llyn yn y pen draw, dylai'r un gyntaf fod yn ysgol Gymraeg a dylai'r ail fod yn ysgol Saesneg;
- Byddai agor ysgol Gymraeg arall yn rhoi mwy o ddewis i rieni o ran pa ysgol Gymraeg y dylent anfon eu plant iddi;
- Mae'r Gymraeg yn marw a byddai agor ysgol arall yn helpu'r iaith i dyfu;
- Mae gan bobl Cymru hunaniaeth y dylid ei chefnogi – mae'n ffordd o fyw;
- Mae pobl sy'n mynd i ysgolion Saesneg ar hyn o bryd a hoffai allu siarad Cymraeg;
- Bydd pobl sy'n gallu siarad Cymraeg yn cael cyfleoedd gwell;
- Mae'n bwysig ymarfer y Gymraeg a bydd hyn yn haws os bydd mwy o ysgolion Cymraeg;
- Ni ddylai pobl ofni'r Gymraeg;
- Mae pobl sy'n gallu siarad Cymraeg yn lwcus iawn ac yn trysori'r iaith;
- Dim ond 19% o bobl yng Nghymru sy'n gallu siarad Cymraeg a byddai ysgol Gymraeg arall yn helpu i roi hwb i'r Gymraeg a'i chefnogi i dyfu.

Ymatebion i'r Ymgynghoriad

Cafwyd 17 o ymatebion yn ystod cyfnod yr ymgynghoriad, ac roedd 14 ohonynt (sy'n cyfateb i 82%) yn cefnogi'r cynnig yr ymgynghorwyd arno. Roedd 2 ymatebwr (11%) yn cefnogi agor ysgol newydd, ond yn teimlo y dylai gael ei sefydlu'n ysgol Gymraeg. Roedd un ymatebwr arall yn gwrthwynebu'r cynnig ar sail yr effaith ariannol sylweddol y byddai hyn yn ei chael ar ysgolion eraill ledled y ddinas.

Ymatebion o blaid y cynnig

Yn ogystal â chefnogi'r cynnig, roedd yr ymatebion yn cynnwys y pwyntiau canlynol:

- Roedd y bobl sy'n byw ar y safle o blaid ysgol leol i'w plant;
- Cynnig ysgol newydd oedd y prif reswm dros symud i'r safle;
- Nododd un ymatebwr ddewis clir dros ddarpariaeth Saesneg;
- Byddai'r ysgol yn adnodd cymunedol da;
- Gallai fod yn fwy priodol neilltuo'r ysgol gynradd newydd i glwstwr Ysgol Uwchradd Llanwern.

Yn y pen draw, bydd safle Glan Llyn yn cynnwys oddeutu 4,000 o anheddau preswyl a dwy ysgol gynradd. Heb ragweld unrhyw wybodaeth o blaid yr ail ysgol, mae'n bosibl y caiff y safle cyfan ei rannu'n ddau ddalgylch gwahanol, y gallai'r ail gael ei neilltuo i Ysgol Uwchradd Llanwern yn y dyfodol.

Serch hyn, mae Polisi Derbyn Ysgolion y Cyngor yn galluogi rhieni i wneud cais i'w plentyn fynd i unrhyw ysgol. Mewn achosion lle ceir mwy o geisiadau na'r lleoedd sydd ar gael, defnyddir meini prawf gordanysgrifio y Cyngor sy'n rhoi blaenoriaeth i blant sy'n byw yn nalgylch dynodedig yr ysgol.

Ymatebion o blaid mwy o ddarpariaeth Gymraeg

Roedd y ddau ymateb a oedd yn amlinellu'r farn hon yn poeni nad oedd y penderfyniad i ymgynghori ar sefydlu ysgol Saesneg yn ystyried opsiwn ysgol Gymraeg yn llawn a dyletswydd yr Awdurdod Lleol i hyrwyddo addysg Gymraeg.

Fel yr amlinellwyd yn y ddogfen ymgynghorol, cynhaliwyd ymarfer cyn ymgynghori ym mis Gorffennaf 2017, gyda phreswylwyr y safle ar y pryd, fel modd o nodi a oedd y prif alw yn yr ardal am ysgol Saesneg neu ysgol Gymraeg. Cafodd y Cyngor 65 o ymatebion i gyd, yr oedd 47 o blaid darpariaeth Saesneg a 18 o blaid darpariaeth Gymraeg. Mae'r Cyngor yn ymwybodol o'r ddyletswydd i hyrwyddo addysg Gymraeg, ac am y rheswm hwn roedd y llythyr cyn ymgynghori yn cynnwys doleri i alluogi rhanddeiliaid i gael mwy o wybodaeth am addysg Gymraeg a dwyieithog. Nid oedd yr ymarfer cyn ymgynghori yn cynnwys sesiynau ymgysylltu â rhanddeiliaid er bod y rhain yn ffocws y cam ymgynghori ffurfiol.

Yn ogystal â hyn, cynhaliwyd dadansoddiad o niferoedd disgyblion yn y gorffennol a'r rhai amcanestynedig er mwyn cadarnhau argaeledd lleoedd mewn ysgolion Saesneg a Chymraeg a'r galw tebygol amdanynt, yn yr ardal hon a ledled y ddinas ehangach. Nododd hyn fod lleoedd ar gael ym mhob grŵp blwyddyn mewn ysgolion Cymraeg presennol, ac y gallai'r ddarpariaeth ysgolion bresennol ateb y galw byrdymor yn y dyfodol. Yn y tymor hwy, mae cynlluniau i ail ysgol gynradd gael ei sefydlu ar safle Glan Llyn a, hyd yn hyn, ni phenderfynwyd ar iaith yr ysgol hon.

Gwnaed sylwadau hefyd nad oedd yr Asesiad o'r Effaith ar Degwch a Chydraddoldeb yn archwilio effaith y cynnig hwn ar y Gymraeg yn llawn. Caiff y ddogfen hon ei diweddarw ar gam nesaf y cynnig a chaiff y sylwadau a wnaed eu hystyried yn llawn fel rhan o hyn.

Ymatebion sy'n gwrthwynebu'r cynnig

Amlinellodd yr ymatebwr olaf hwn bryderon y byddai agor ysgol newydd yn cynnwys symud llawer o ddisgyblion o ysgolion presennol, gan achosi ansefydlogrwydd ledled y ddinas, ac awgrymwyd y dylid diwygio'r Polisi Derbyn Ysgolion fel ei bod yn ofynnol i blant fynd i ysgol eu dalgylch.

Fodd bynnag, nid yw Cod Derbyn Ysgolion yn ategu'r farn hon ac mae ganddo ffocws cryf ar yr Awdurdod Lleol yn cefnogi dewis rhieni lle bynnag y bo'n bosibl. Mae polisi'r Cyngor yn dilyn hyn er bod y meini prawf gordanysgrifio cytûn yn rhoi blaenoriaeth uwch i blant sy'n byw yn y dalgylch ysgol perthnasol lle ceir mwy o geisiadau na'r lleoedd sydd ar gael.

Mae'r Cyngor yn cydnabod y broblem bosibl y bydd llawer o bobl yn symud pan gaiff ysgol newydd ei hagar, ac am y rheswm hwn y cysyniad o ysgol sy'n tyfu yw'r opsiwn a ffefrir yn yr achos hwn, gan fod hyn yn debygol o liniaru'r risg.

Mae'r pwynt mwy arwyddocaol yn yr ymateb hwn yn ymwneud â'r effaith ariannol y gallai ysgol newydd ei chael ar yr ysgolion presennol yn y ddinas. Ariennir pob ysgol yn unol â fformiwla gytûn o'r Gyllideb Ysgolion Unigol. Nid cyllideb ddiderfyn yw hon ac mae'r Cyngor yn ei chapio drwy osod swm penodol i'w ddsbarthu ymysg yr holl ysgolion. Felly, mae cynyddu nifer ffisegol yr ysgolion yng Nghasnewydd yn lleihau'r swm a ddyrennir i bob safle ysgol a'r cyfanswm cyllid sydd ar gael i gefnogi'r ysgolion presennol a'u disgyblion.

Estyn

Daeth yr ymateb ffurfiol gan Estyn i'r casgliad bod y cynnig yn debygol o gynnal darpariaeth addysgol yn yr ardal ond nad yw'n rhoi manylion am gynlluniau i ganiatáu mynediad at addysg Gymraeg i'r rhieni sydd am gael hynny.

Ymateb: Mae'r Awdurdod Lleol yn ymrwymedig i ddarparu addysg Gymraeg i unrhyw blentyn sy'n nodi ei fod yn dewis y ddarpariaeth hon. Mae dadansoddiad o niferoedd y gorffennol a'r rhai amcanestynedig yn y tair ysgol Gymraeg bresennol wedi amlinellu i'r cyngor bod digon o leoedd eisoes yno ar hyn o bryd.

Mae'r ymateb yn mynd ymlaen i ddweud bod ystyriaeth drwyadl wedi'i rhoi i fanteision ac anfanteision sefydlu'r ysgol fel ysgol sy'n tyfu. Fodd bynnag, barn Estyn oedd na roddwyd sylw manwl i amcanestyniadau uwchben y niferoedd hyn wrth ystyried y cynlluniau i sefydlu'r ail ysgol ar y safle.

Ymateb: Mae'r amcanestyniadau ar gyfer yr ysgol newydd a'r ysgolion sydd eisoes wedi'u sefydlu yn yr ardal yn amlinellu digonedd o leoedd ledled yr ardal gyfan. Yn y tymor hwy, mae'r cytundeb adran 106 rhwng y Cyngor a'r datblygwr yn amlinellu y caiff yr ail ysgol ei hadeiladu ym mhen 7-10 mlynedd, pan fydd yr ysgol gyntaf yn llawn a phan fydd ail hanner y datblygiad tai ar droed. Mae'r amcangyfrifon diweddaraf yn nodi y caiff oddeutu 1,400 o anheddau eu hadeiladu erbyn mis Awst 2023 gyda'r safle llawn yn cynnwys rhyw 4,000 o gartrefi yn y pen draw.

Er bod yr ymateb yn nodi'r rhesymau dros gynnig sefydlu ysgol Saesneg, y farn yw nad ystyriwyd y rhieni a nododd awydd am addysg Gymraeg yn yr ymarfer cyn ymgynghori.

Ymateb: Roedd yr ymarfer cyn ymgynghori wedi'i anelu at yr holl gartrefi lle roedd pobl yn byw ym mis Gorffennaf 2017 a gofynnodd a ddylai'r ysgol arfaethedig gael ei sefydlu fel un â darpariaeth Gymraeg neu Saesneg. Er y gofynnwyd i'r ymatebwyr roi eu cyfeiriad a'u hystod oedran, nid oedd y ffurflen yn gofyn iddynt nodi a oedd plant yn byw yn y cyfeiriad ar hyn o bryd. Mae'r Awdurdod Lleol yn ymrwymedig i ddarparu addysg Gymraeg i unrhyw blentyn sy'n nodi ei fod yn dewis y ddarpariaeth hon. Mae dadansoddiad o niferoedd y gorffennol a'r rhai amcanestynedig yn y tair ysgol Gymraeg bresennol wedi amlinellu i'r cyngor bod digon o leoedd eisoes yno ar hyn o bryd.

Daw'r ymateb gan Estyn i ben drwy nodi bod y cyngor wedi ystyried y risgiau a all godi o ganlyniad i sefydlu'r ysgol ac wedi ymateb iddynt yn rhesymol.

Ystyriaethau Eraill

Mae'r amcangyfrifon diweddaraf ar gyfer amcanestyniadau disgyblion yn nodi oddeutu 105 o ddisgyblion dros ben rhwng ysgolion Saesneg, ysgolion Cymraeg ac ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir yng nghlystyrau dynodedig Llysweri a Llanwern ym mis Ionawr 2019 ar ôl ystyried y disgyblion newydd a ddisgwylir o'r datblygiadau tai newydd hyn. Felly, mae'n debyg y gallai'r disgyblion sy'n byw ar safle Glan Llyn gael lleoedd mewn ysgolion eraill yn yr ardal ar gyfer y flwyddyn academaidd 2018/19. Felly, byddai'n ymddangos yn rhesymol gohirio'r broses o sefydlu'r ysgol gynradd newydd tan fis Medi 2019.

Byddai'r dyddiad agor gohiriedig hwn yn galluogi amserlen hwy i sefydlu'r ysgol newydd yn effeithiol o ran penodi staff a chaffael adnoddau.

Argymhellion

Argymhellir y dylid ceisio caniatâd i symud y cynnig hwn yn ei flaen drwy gyhoeddi hysbysiad statudol sy'n amlinellu dyddiad gweithredu wedi'i addasu, sef 1 Medi 2019. Caiff y penderfyniad hwn ei gyfeirio at Aelod y Cabinet dros Addysg a Phobl Ifanc a bydd yn mynd drwy broses ddemocrataidd gytûn y Cyngor.

Yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (2013), mae'r adroddiad hwn wedi'i gyhoeddi'n electronig ar wefan Cyngor Dinas Casnewydd yn www.newport.gov.uk

Er mwyn gofyn am gopi caled (papur) o'r ddogfen hon, cysylltwch â Rheolwr Datblygu Gwasanaeth Addysg Cyngor Dinas Casnewydd ar 01633 656656 neu anfonwch e-bost i school.reorg@newport.gov.uk